

Fel rhan o'r broses ymgysylltu anffurfiol, rydym yn awyddus i ennyn trafodaeth a chasglu syniadau am y math o gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon fyddai'n addas ar gyfer 2030 a thu hwnt.

Diolch rhagblaen am rannu eich syniadau a'ch barn.

Eich Manylion:

Dyddiad:

Enw:

Cyfeiriad e-bost:

Rwy'n ymateb fel:

(enghreifftiau megis

Llywodraethwr,

Rhiant, Aelod Staff, Dysgwr neu nodwch arall os gwelwch yn dda).

Os dymunwch dderbyn hysbysiad pan gyhoeddir adroddiad ar ganlyniadau'r broses ymgysylltu anffurfiol, ticiwch y blwch priodol isod

- Hoffwn gael fy hysbysu
- Na, nid wyf yn dymuno cael fy hysbysu

Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn fel rhan o broses ymgysylltu anffurfiol ar addysg ôl-16 yn Arfon. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgysylltu anffurfiol. Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb, nodwch isod trwy roi ✓ yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r Adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

* Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb yn llawn, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol
- Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, heb gynnwys fy ngwybodaeth bersonol
- Nid wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb

1.a) I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r weledigaeth a'r nod sydd wedi eu gosod ar gyfer Addysg ôl-16 yn Arfon (Gweler [Atodiad 1](#)?)

* Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

1.b) Unrhyw sylwadau eraill?

2.a) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r amcanion sydd wedi eu llunio ar gyfer y ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon (Gweler [Atodiad 1](#)?)

* Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

2.b) Unrhyw sylwadau eraill?

3.a) I ba raddau ydych chi'n cytuno bod gan offer a thechnolegau digidol rôl i'w chwarae wrth gefnogi'r addysgu a dysgu yn y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon i'r dyfodol?

* Dewiswch un o'r atebion canlynol


- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

3.b) Sut hoffech chi weld rôl offer a thechnolegau digidol yn datblygu i gefnogi'r addysgu a dysgu o fewn y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon i'r dyfodol?

4. Yn eich barn chi, pa fath o gyfundrefn addysg ôl-16 fyddai'n cyfarch yr amcanion a ganlyn:

a) Addysgu a Dysgu - Cyfundrefn ôl-16 arloesol sy'n cyfoethogi'r profiad addysgu a dysgu yn ogystal ag annog rhagoriaeth

b) Amgylchedd Dysgu - Cyfleusterau cwbl fodern ar gyfer sicrhau amgylchedd ddysgu priodol ar gyfer yr 21ain ganrif




c) Cwricwlwm - Cwricwlwm ôl-16 eang a chyfoes, sy'n addas i bwrpas ar gyfer 2030 a thu hwnt; ac yn adlewyrchu gofynion yr economi.




ch) Y Gymraeg a Dwyieithrwydd - Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf ar gyfer yr holl amrywiaeth o gyrsiau, sy'n annog dilyniant ieithyddol o un cyfnod addysg i'r nesaf



d) Cefnogaeth i ddysgwyr - Darpariaethau bugeiliol, iechyd a lles a gyrfaol rhagorol sy'n cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial



dd) Adnoddau Cyllidol - Cyfundrefn ôl-16 hyfyw sy'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau, gan sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddysgwyr



5.) Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn amserol i edrych o'r newydd ar y cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon, yn arbennig er mwyn cyfarch:

- Amrywiaeth yn ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau gan arwain at ddiffyg cysondeb yn y cyfleoedd a'r profiadau a roddir i'r dysgwyr ar draws y sir.
- Grwpiau dysgu bychain mewn nifer o bynciau a diffyg cyfoedion i gyfoethogi'r profiad dysgu.
- Heriau i sicrhau gwir ddewis o 30 o gyrsiau yn sgil cyfyngiadau ymarferol a'r ffrwyno a wneir i'r cynnig gan ysgolion unigol.
- Yr her o sicrhau cyfundrefn addysg ôl-16 sydd yn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau cyllidol, gan sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddysgwyr.
- Heriau i sicrhau bod dysgwyr yn manteisio ar y ddarpariaeth o gyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.
- Cyfle i ddenu buddsoddiad o hyd at £18m ar gyfer gwella'r ddarpariaeth addysg ôl-16 trwy Raglen Ysgolion a Cholegau 21ain Ganrif, Llywodraeth Cymru.

Yn eich barn chi, o ystyried y ffactorau uchod pa fath o gyfundrefn addysg ôl-16 fyddai'n cyfarch y weledigaeth a'r amcanion, ac yn ymateb i'r heriau a nodir yn y ddogfen [Trosolwg Addysg Ôl-16](#) (ac y crynhoir uchod)?

6.) Unrhyw sylwadau pellach hoffech eu cyflwyno ynglŷn ag addysg ôl-16?